



AR ÔL Y TÂN

South Wales
Fire and Rescue Service



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

GWASANAETH TÂN AC ACHUB
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
FIRE AND RESCUE SERVICE



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

CYDWEITHIO I WNEUD CYMRU'N FWY DIOGEL

Ar Ôl y Tân

Pan fydd y criwiau Tân ac Achub wedi gadael, bydd angen i chi ystyried camau i'ch amddiffyn chi a'ch eiddo.

Bydd y swyddogion wedi cynnal archwiliad trylwyr o'r strwythur yr effeithiodd y tân arno, a byddant wedi'ch cynghori am unrhyw ddiffygion amlwg sy'n effeithio ar ddiogelwch yr adeilad.

Mewn achosion o ddifrod strwythurol difrifol, gellid galw ar arolygydd adeiladau o'r awdurdod lleol i gynghori ynghylch diogelwch yr adeilad.

Ar ôl diffodd y tân, efallai y byddwch yn clywed synau yn dod o'r man sydd wedi'i effeithio; caiff hyn ei achosi pan fydd deunyddiau a ddefnyddir yn yr adeilad yn oeri. Er enghraifft, mae waliau brics yn tueddu i weithio fel gwresogyddion storio nos anferth a gallant aros yn gynnes am oriau lawer nes bod y broses oeri yn gyflawn.

Mae tanau'n cynhyrchu llawer o fwg a nwyon poeth, a rhaid i ymladdwyr tân gael gwared ar y rhain i gyflymu'r broses o ymladd tân. Bydd hyn yn ei dro yn lleihau'r tân sy'n lledaenu, a'r difrod gan fwg. Am y rheswm hwnnw, efallai fod rhai ffenestri wedi gorfod cael eu torri, a waliau a nenfydau wedi cael eu gorfodi ar agor i wneud yn siŵr nad oes unrhyw danau cudd. Gallai'r gweithredoedd hyn ymddangos yn ddiangen, ond rhaid i ni fod yn gwbl siŵr nad oes unrhyw dân heb ei ddarganfod a allai ailgynnau yn ddiweddarach.

Dŵr, nwy, trydan

Gallai'r tân neu'r gweithrediadau ymladd tân fod wedi amharu ar gyflenwadau nwy, trydan a hyd yn oed dŵr mewn rhyw ffordd.

Gallai'r cyflenwadau nwy a thrydan fod wedi'u datgysylltu, ac NI ddylech geisio ailgysylltu neu gynnau'r rhain eich hun **O DAN UNRHYW AMGYLCHIADAU.**

Cysylltwch â'r cwmnïau nwy a thrydan ar gyfer eich ardal i sicrhau bod difrod parhaol i unrhyw un o'r systemau yn cael ei gywiro cyn adfer y pŵer yn ddiogel.

Dylai plymer cymwys wneud yr holl waith atgyweirio i ffitiadau, peipiau a thanciau dŵr, ac ati. Os byddwch yn troi'r dŵr ymlaen heb gael cyngor i wneud hynny, gallech wynebu llifogydd.

Gwnewch yn siŵr bod yr holl fasnachwyr yn gymwys ac yn perthyn i gorff proffesiynol achrededig.

Yn ystod oriau swyddfa, cynghorir tenantiaid y cyngor i gysylltu â'u Hadran Dai, a fydd yn trefnu unrhyw waith atgyweirio angenrheidiol i gyflenwadau dŵr, nwy a thrydan domestig.

Diogelwch

Os na ellir diogelu eich eiddo yn gyfan gwbl ar ôl tân neu lifogydd, a bod yn rhaid i chi ei adael heb neb ynddo, dilynwch y rhestr wirio isod:

- Lle bynnag y bo modd, gwnewch yn siŵr bod pob drws a ffenestr ar gau ac wedi'u cloi.
- Os bydd angen gosod estyll ar ffenestri neu ddrysau, gellir cysylltu â chontractwr drwy chwilio yn y llyfr ffôn neu ar-lein o dan "Glaziers". Darllenwch eich polisi yswiriant i weld a fydd y gost hon yn cael ei thalu.
- Dylech fynd â phethau gwerthfawr a dogfennau pwysig o'r eiddo.
- Chwiliwch am lety arall naill ai gyda theulu neu ffrindiau. Os yw eich cartref yn cael ei rentu, naill ai'n breifat neu gan yr awdurdod lleol, cysylltwch â'r landlord neu'r adran dai berthnasol cyn gynted ag y gallwch.
- Cysylltwch â'ch Heddlu Lleol i ddweud wrthynt y bydd eich eiddo yn wag.

Yswiriant

Un o'r pethau cyntaf y dylech ei wneud yw gofalu am faterion yswiriant.

Dilynwch y rhestr wirio yswiriant ganlynol cyn gynted ag y bo modd:

- Os yw eich eiddo wedi cael ei ddifrodi'n sylweddol, efallai y bydd angen gwneud atgyweiriadau brys ar unwaith er mwyn iddo allu gwrthsefyll dŵr a'i wneud yn ddiogel. Os felly, gwnewch yn siŵr eich bod yn cael ac yn cadw derbynebaw am y gwaith a wnaed oherwydd gallent fod yn rhan o'ch hawliad.

- Cysylltwch â'ch cwmni yswiriant (ar gyfer adeiladau a chynnwys) neu'ch brocer i roi gwybod iddynt am y digwyddiad a chael ffurflen hawlio. Efallai y bydd y cwmni yswiriant am archwilio eich eiddo a'r cynnwys cyn bod unrhyw beth yn cael ei symud.
- Gwnewch restr fanwl o'r holl eiddo, y cynnwys neu'r nwyddau a ddifrodwyd.
- Dychwelwch y ffurflen(ni) hawlio i'r cwmni yswiriant ynghyd ag unrhyw dderbynebaw a phrisiadau am ddifrod. Cofiwch gadw copïau o'r holl ohebiaeth.
- Gallwch ofyn i'ch cwmni yswiriant am gyngor ar sychu a chlirio'r eiddo.
- Mae dau fath o syrfewyr yswiriant a allai gysylltu â chi, sef Asesydd Colledion ac Unionwr Colledion.
- Mae Aseswyr Colledion yn annibynnol ar eich cwmni yswiriant, a byddant yn cynnig eich cynrychioli wrth ddelio â'ch hawliad.
- O ran hawliadau mwy o faint, efallai y byddwch yn dymuno cysylltu ag aelod o'r Sefydliad Aseswyr Colledion Cyhoeddus. Byddant yn codi canran o'r tâl arnoch am y gwasanaeth hwn.
- Caiff Unionwyr Colledion eu penodi gan eich yswirwyr i asesu graddau'r difrod. Ni fydd gofyn i chi dalu am hyn.
- Os nad oes gennych yswiriant, gallwch ddod o hyd i wasanaethau glanhau a chlirio sydd wedi'u rhestru yn eich cyfeirlyfrau ffôn neu drwy chwilio ar-lein.

Gellir cael gwybodaeth gyffredinol am faterion yswiriant o'r cyfeiriad isod:

The Association of British Insurers,
 51 Gresham Street, London, EC2V 7HQ.
 Ffôn: 020 7600 3333

(Mae Ombwdsman Yswiriant ar gael hefyd mewn achosion o anghytuno neu anghydfod)

Gofynnwch i bawb sy'n cynnig eich helpu am brawf o bwy ydynt. Bydd pob cwmni/unigolyn cyfrifol yn croesawu ymholiadau o'r fath.

Dim yswiriant

Os nad oes gennych yswiriant a'ch bod yn wynebu caledi uniongyrchol, mae rhestr o asiantaethau eraill a allai eich helpu a'ch cynorthwyo wedi'i nodi isod.

Math o gymorth	Asiantaeth
Llety	Awdurdod Lleol
Dodrefn a Dillad Gwely	Y Ganolfan Byd Gwaith Gwasanaethau Gwirfoddol
Dillad	Y Ganolfan Byd Gwaith Gwasanaethau Gwirfoddol
Arian	Y Ganolfan Byd Gwaith
Cyngor Cyfreithiol	Cyngor ar Bopeth
Cyngor Cyffredinol	Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor ar Bopeth Y Gwasanaeth Tân ac Achub Yr Heddlu

Dogfennau pwysig

Os ydych chi wedi colli dogfennau personol yn y tân, defnyddiwch y rhestr wirio isod i gael cyngor ar sut gallwch gael dogfennau newydd yn eu lle.

Dogfennau banc a chymdeithas adeiladu/cardiau credyd -

Cysylltwch â'ch banc neu'ch cymdeithas adeiladu, a fydd yn rhoi rhai newydd yn eu lle.

Tystysgrifau geni, priodas a marwolaeth -

Gallwch gael ail gopi o'r swyddfa gofrestru wreiddiol.

Archddyfarniad ysgariad -

Cysylltwch â swyddfa wreiddiol y llys lle gwnaed yr archddyfarniad. Gallai eich cyfreithiwr eich helpu â'r mater hwn hefyd.

Trwydded yrru a chofnodion cerbyd -

Cysylltwch â'r DVLA yn Abertawe, SA99 1AB.

Cofnodion treth incwm -

Mae eich swyddfa drethi leol yn cadw manylion am ddatganiadau a chofnodion treth pawb. Cysylltwch â'ch swyddfa ardal leol.

Polisiâu yswiriant -

Bydd y swyddfa a gyhoeddodd eich dogfennau yswiriant yn wreiddiol yn gallu darparu ail gopiâu.

Cofnodion meddygol -

Caiff y dogfennau gwreiddiol eu cadw yn eich meddygfa neu'ch ysbyty lleol gan amlaf.

Pasbortau -

Y swyddfa gyhoeddi berthnasol, neu, ar gyfer pobl nad ydynt yn ddinasyddion, trwy eich Conswliaeth neu'ch Llysoenhadaeth.

Llyfrau talu -

Caiff cofrestrau a chyfrifon meistr eu cadw gan y sefydliad yr ydych yn ei dalu.

Dogfennau nawdd cymdeithasol -

Cysylltwch â swyddfa leol yr Adran Nawdd Cymdeithasol.

Stociau a bondiau -

Gallai fod gan eich brocer fanylion am y cyfranddaliadau sydd gennych ac efallai y bydd angen cyfreithiwr i ail-lunio'r tystysgrifau yn gyfreithiol. Bydd eich Swyddfa Bost leol yn gallu rhoi manylion i chi ar sut i gael ail gopiâu o Fondiau Swyddfa'r Post.

Bondiau teitl -

Dylech gysylltu â'ch cyfreithiwr a fydd yn eu hail-lunio.

Gwarantiadau a gwarantau -

Mae'r gweithgynhyrchwr yn cadw prif gardiau neu ddogfennau cofrestru.

Ewyllysiau -

Cysylltwch â'ch cyfreithiwr neu'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth leol i gael cyngor.

Cofiwch, gall y Ganolfan Cyngor ar Bopeth gynnig llawer o gyngor buddiol, yn cynnwys cyfeiriadau a rhifau ffôn ffynonellau cymorth eraill.

Digwyddiadau eraill

Tanau simnai

Ar ôl tân simnai:

- Rhowch fwced fetel sy'n hanner llawn dŵr yn y lle tân i ddal unrhyw falurion poeth.
- Rhowch sgrin dân o flaen y lle tân.
- Gadewch y simnai i oeri am o leiaf 24 awr.
- Dylid sgubo'r simnai cyn ei haildefnyddio ac ar ôl hynny yn rheolaidd.

Tanau car

Eich cyfrifoldeb chi yw symud y cerbyd. Gellir defnyddio llawer o garejys neu wasanaethau achub ar gyfer hyn. Os bydd yn rhaid i chi ei adael, ewch â'r holl bethau gwerthfawr/dogfennau gyda chi. Nid oes angen rhoi gwybod i'r heddlu am dân mewn car oni bai bod ffactorau eraill yn gysylltiedig, megis llosgi bwriadol neu ddamwain ffordd. Cysylltwch â'ch cwmni yswiriant.

Llifogydd

Gall y Gwasanaeth Tân ac Achub helpu i ryw raddau trwy bwmpio dŵr allan o ardaloedd â llifogydd* a helpu gydag achub nwyddau, ond eich cyfrifoldeb chi fydd glanhau a sychu. Cysylltwch â phlymwr cyfrifol i ddelio ag unrhyw beipiau sydd wedi'u difrodi. Mae llawer o gwmnïau sy'n arbenigo mewn glanhau/sychu eitemau dodrefnu a ffabrigau.

- Am resymau gweithredol, ni all y Gwasanaeth Tân ac Achub bwmpio lefelau dŵr islaw 150mm gan amlaf.

Sylwer: Gall dŵr llifogydd fod yn beryglus i iechyd, yn dibynnu ar ei darddiad. Gwaredwch unrhyw fwyd sydd wedi cael ei halogi gan y dŵr, a gwnewch yn siŵr bod unrhyw gynhwysyddion bwyd sych, e.e. oergelloedd, rhewgelloedd a phoptai, yn cael eu glanhau'n drylwyr.

Anifeiliaid ac anifeiliaid anwes sydd wedi'u hanafu

- Dylid mynd ag anifeiliaid sydd wedi'u hanafu, neu'r rheiny y mae'r mwg wedi effeithio arnynt, at filfeddyg i'w trin ar unwaith.
- Gan amlaf, bydd eich milfeddyg yn gallu gwaredu anifeiliaid sydd wedi marw, trwy eu claddu ar eich eiddo neu drwy eu hamlosgi.
- Dylai'r rheiny sy'n cael budd-dal y wladwriaeth ac nad ydynt yn gallu fforddio cost triniaeth gan filfeddyg gysylltu ag elusen yr RSPCA.
- Gall yr RSPCA roi cyngor a chymorth gydag anifeiliaid ac anifeiliaid anwes sydd wedi'u hanafu.

Glanhau

Gall y dasg o sychu a glanhau cartref neu fusnes fod yn hynod anodd. Dyma ganllawiau i'ch helpu:

- Gellir arbed carpedi, llenni a dillad. Byddai'n well defnyddio cwmni glanhau arbenigol. Fodd bynnag, ar gyfer mân ddifrod ac os ydych chi am wneud y gwaith eich hun, gallwch logi sugnwyr llwch gwlyb/sych gan rai cwmnïau glanhau, siopau carpedi, safleoedd rhentu offer a siopau mwy fel B&Q. Bydd awyru cyson yn ystod y broses sychu a chynhesrwydd ysgafn yn cyflymu'r gwaith ac yn helpu i atal pydredd, ac yn lleihau arogleuon mwg a huddygl sy'n sefyll.
- Ar gyfer walïau a nenfydau, gellir defnyddio sebon siwgr neu lanedyddion ysgafn. Gwnewch ardal fechan ar y tro, gan rinsio gyda dŵr glân wrth ei wneud. Dylid sychu walïau a phlastr yn drylwyr cyn addurno.
- Dylid golchi oergelloedd a rhewgelloedd pan fyddant wedi dadrewi. Mae ychydig bach o soda pobi neu finegr wedi'i gymysgu mewn rins cyn y rins terfynol gyda dŵr glân yn gallu helpu i leihau arogleuon. Gadewch i'r teclyn sychu'n naturiol.
- Dylid sychu dodrefn â chlwtyn a'u gadael i sychu.
- Mae'n amlwg y gall cynnyrch glanhau clustogwaith a chwyr pren helpu, ond ar gyfer staenïau neu farciau parhaus, gofynnwch i arbenigwr. Mae llawer o gwmnïau yn cynnig cyngor am ddim i gwsmerïaid. Gofalwch eich bod yn dewis cwmni adnabyddus ag enw da os hoffech ddefnyddio'r gwasanaeth hwn.
- Rhaid taflu unrhyw fwyd sydd wedi darfod.
- Dylid taflu canïau sydd wedi chwyddo neu wedi'u difrodi hefyd.
- Cadwch restr o'r difrod ar gyfer eich Cwmni Yswiriant.

COFIWCH "OS OES GENNYCH AMHEUAETH – TAFLWCH EF"

Sychu

Wrth sychu, peidiwch â defnyddio Nwy offer pwer.

I gael cymorth arbenigol, edrychwch mewn cyfeirlyfr neu chwiliwch ar-lein o dan ‘Carpet, Curtain, Upholstery Cleaners, Hire Services, Tools and Equipment, Dry Cleaning, Launderers and Flooring Services’.

Diogelwch rhag tân yn y cartref

Mae cael tân yn eich cartref yn gallu bod yn brofiad torcalonnus a gall aros gyda chi am gryn amser wedyn. Mae’n bwysig cymryd rhai camau syml i warchod eich eiddo wedi’i adnewyddu ac i atal sefyllfa debyg:

- Archebwch archwiliad diogelwch tân am ddim ar gyfer eich cartref, sy’n cynnwys gosod larymau mwg am ddim yn eu lle. Dyma rybudd ar unwaith o dân ac mae’n sicrhau bod pawb yn y tŷ yn gallu gadael yn syth ac yn ddiogel. Ffoniwch 0800 169 1234 i drefnu ymweliad neu ewch i www.freesmokealarm.co.uk
- Ewch i wefan eich Gwasanaeth Tân ac Achub lleol:

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

www.decymru-fire.gov.uk

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

www.tancgc.gov.uk

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

www.gwastan-gogcymru.gov.uk

Cofiwch:

- Mae larwm mwg sy'n gweithio yn arbed bywydau.
- Bydd cynllun dianc rhag tân yn sicrhau eich bod yn mynd allan yn ddiogel.
- Bydd cau drysau yn y nos yn atal tân rhag lledu.
- Gall plant yn chwarae â matsis a thanwyr achosi tanau ac anafiadau difrifol.

Sylwadau a phryderon

Ein nod yw darparu'r gwasanaeth gorau bob tro.

Os oes gennych unrhyw ganmoliaeth, cwynion neu bryderon ynglŷn â safon y gwasanaeth a gawsoch, cysylltwch â'r Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer eich ardal.

Cymorth arall

Yn aml, bydd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn gofyn i uned Gwasanaeth Cymorth Tân ac Achosion Brys y Groes Goch Brydeinig fynd i ddigwyddiad. Gall yr uned hon roi cymorth ymarferol ac emosiynol yn syth ar ôl y digwyddiad.

Mae'r uned hon yn cario dillad ac offer ymolchi wrth gefn, ac efallai y bu'n bresennol yn y digwyddiad a effeithiodd arnoch chi yn ddiweddar.